OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 50

# Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2016

**Diwygiadau i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013**

**13.** Yn Atodlen 10 (diystyriadau cyfalaf: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) yn lle paragraff 23 rhodder—

"**23.** Unrhyw daliad a wnaed gan awdurdod lleol yn unol â'r canlynol

(a) adran 17, 23B, 23C neu 24A o Ddeddf Plant 1989;

(b) adran 12 o Ddeddf Gwaith Cymdeithasol (Yr Alban) 1968;

(c) adran 22, 29 neu 30 o Ddeddf Plant (Yr Alban) 1995; neu

(d) adran 37, 38, 109, 110 neu 114 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ond gan eithrio unrhyw daliadau uniongyrchol a wnaed o dan y Ddeddf honno.";

(b) yn lle paragraff 24(1) rhodder—

"(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), unrhyw daliad (neu ran o daliad) a wnaed gan awdurdod lleol i berson ("A") ac a drosglwyddir ymlaen gan A i'r ceisydd pan fo'r taliad wedi ei wneud yn unol â'r canlynol—

(a) adran 23C o Ddeddf Plant 1989;

(b) adran 29 o Ddeddf Plant (Yr Alban) 1995; neu

(c) adran 110 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.";

(c) yn lle paragraff 47 rhodder—

"**47.**—(1) Unrhyw daliad a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 3 o Ddeddf Personau Anabl (Cyflogaeth) 1958 i weithwyr gartref a gynorthwyir o dan gynllun gweithwyr gartref dall.

(2) Unrhyw daliad a wneir gan awdurdod lleol o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i weithwyr gartref a gynorthwyir o dan gynllun gweithwyr gartref dall.";

(d) yn lle paragraff 60 rhodder—

"**60.** Unrhyw daliad a wneir

(a) o dan reoliadau a wnaed o dan adran 57 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (taliadau uniongyrchol);

(b) fel taliad uniongyrchol fel y diffinnir "*direct payment*" yn adran 4(2) o Ddeddf Gofal Cymdeithasol (Cymorth Hunangyfeiriedig) (Yr Alban) 2013;

(c) o dan adrannau 12A i 12D o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (taliadau uniongyrchol am ofal iechyd);

(d) o dan reoliadau a wnaed o dan adrannau 50 i 53 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (taliadau uniongyrchol); neu

(e) o dan reoliadau a wnaed o dan adran 33 o Ddeddf Gofal 2014 (taliadau uniongyrchol)."